# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Deintyddfa Wilson Road

Dyddiad Arolygu: 18 Tachwedd 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 20 Chwefror 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-8427-6


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Cyd-destun ........ 3
3. Crynodeb ........ 4
4. Canfyddiadau ........ 5
   Ansawdd Profiad y Claf ........ 5
   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 8
   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15
5. Y Camau Nesaf ........ 17
6. Methodoleg ........ 18
   Atodiad A ........ 20

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Ddeintyddfa Wilson Road, 29 Wilson Road, Trelái, Caerdydd, CF5 4LL ar 18 Tachwedd 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Deintyddfa Wilson Road yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Wilson Road yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Trelái, Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae Deintyddfa Wilson Road yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un therapydd, dwy nyrs ddeintyddol amser llawn, tair nyrs ddeintyddol rhan amser a chydlynydd practis.

Mr Xenophon Ioannides sy'n berchen ar ac sy'n rhedeg Deintyddfa Wilson Road.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Deintyddfa Wilson Road yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, a bod y cleifion yn uchel eu parch tuag at y practis.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu rolau ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd system ar waith i dystio bod staff wedi darllen a deall polisïau a gweithdrefnau'r practis

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella’r canlynol:

- Adolygu'r cyfleusterau clinigol i sicrhau eu bod mewn cyflwr da, gan gynnwys sicrhau bod y lloriau yn yr ystafelloedd triniaeth wedi'u selio, bod dolenni yn sownd wrth ddroriau a bod y cyfarpar mewn cyflwr da.
- Gwella'r trefniadau ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM)
- Gwella'r arferion cadw cofnodion, gan gynnwys sicrhau bod y deintyddion yn llofnodi hanesion meddygol, bod archwiliadau'n cael eu defnyddio fel dulliau er gwella a bod gwybodaeth am roi'r gorau i ysmygu a pheryglon canser y geg yn cael eu dogfennu.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Roedd y practis wedi rhoi systemau ar waith yn ddiweddar i geisio adborth gan gleifion yn rheolaidd fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y practis yn datblygu polisi a gweithdrefn ar gyfer ymdrin ag unrhyw gŵynion ynghylch triniaeth ddeintyddol breifat.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 14 o holiaduron. Nododd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> "*Mae hwn yn bractis deintyddol hyfryd, ac mae'r staff i gyd yn hynod gyfeillgar a chymwynasgar*"
>
> "*Rwy'n nerfus iawn am fynd at y deintydd, ac mae'r staff a'r deintydd yn y practis bob amser yn feddylgar yn hynny o beth ac yn gwybod sut i wneud i mi deimlo'n gyfforddus a chysurus*"
>
> "*Y deintydd gorau rwy wedi mynd ato*"

<u>Gofal gydag urddas</u>

Roeddem o'r farn bod y staff yn broffesiynol ac yn gyfeillgar, ac fe'u clywsom yn bod yn gwrtais ac yn foesgar tuag at gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd oddi wrth y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Yn ogystal, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol.

<u>Gofal amserol</u>

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y staff wrthym pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr y

byddent yn sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r cleifion. Pe bai angen, byddent yn cynnig gwneud trefniadau amgen.

Roedd rhif ffôn cyswllt brys wedi'i arddangos ar ddrws y fynedfa at ddefnydd y cleifion. Dywedwyd wrthym fod y rhif cyswllt brys yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis hefyd, fel bod cleifion yn gallu cael gofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau. Dangosodd adolygiad o gynnwys yr holiaduron AGIC a gwblhawyd fod y rhan fwyaf o'r cleifion yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau.

Cadw'n iach

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd gwybodaeth am hybu iechyd ar gael yn y man aros. Roedd ystod fach o daflenni gwybodaeth i gleifion yn ymwneud â gwahanol fathau o driniaethau a gofal ataliol yn enghraifft o arfer da. Dylai'r practis ystyried sut y gallai sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch i amrediad ehangach o gleifion, megis trwy ddarparu gwybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion.

Roedd y practis wedi sefydlu ffyrdd o geisio adborth gan gleifion yn ddiweddar a fyddai'n cael eu monitro i nodi unrhyw themâu a fyddai'n mynnu sylw, fel y datganwyd.

Roedd arwydd dim ysmygu yn ardal y dderbynfa ac roedd camerâu teledu cylch cyfyng ar waith mewn rhai mannau o'r practis, yn benodol yn monitro'r fynedfa i lawr y grisiau, yr ystafelloedd aros a'r man uwchben desg y dderbynfa. Gosodwyd sticeri yn ardaloedd y dderbynfa i hysbysu'r cleifion bod camerâu teledu cylch cyfyng yn cael eu defnyddio.

Gofal unigol

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno'r GIG ar waith. Roedd poster wedi'i arddangos yn glir yn y man aros hefyd i hysbysu'r cleifion ynghylch yr hyn i'w wneud pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynghylch eu gofal neu eu triniaeth ddeintyddol. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r practis bod angen iddynt gael polisi a gweithdrefn mewn perthynas â chŵynion yn ymwneud â deintyddiaeth breifat. Dywedodd y staff wrthym fod cofnod cwynion ar waith yn y practis i gofnodi a monitro'r holl gŵynion. Dywedwyd wrthym, fodd bynnag, nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gŵynion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo bolisi a gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chŵynion yn ymwneud â thriniaeth ddeintyddol breifat.***

Yn ddiweddar, roedd y practis wedi dechrau cofnodi pryderon anffurfiol a phryderon a gafwyd ar lafar a dywedodd y staff y byddent yn cael eu monitro i nodi themâu. Roedd hyn gyda'r bwriad o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth cyhyd â phosibl.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod yn gwybod i bwy y dylent wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol maent yn eu derbyn.

Gwnaeth cynllun y practis alluogi pobl ag anawsterau symudedd i gael mynediad at rai o'r gwasanaethau deintyddol sydd ar gael. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt ramp a fyddai'n caniatáu mynediad at y man derbyn/aros. Roedd un ystafell driniaeth wedi'i lleoli ar y llawr daear, ond roedd y toiled cyhoeddus i fyny'r grisiau.

Roedd y man derbyn/aros â chynllun agored. Dywedodd y staff wrthym fod sgyrsiau preifat yn cael eu cynnal mewn ystafell i sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion yn cael eu cynnal. Dywedodd staff y dderbynfa wrthym eu bod yn gofyn am wybodaeth gan gleifion yn hytrach na datgan gwybodaeth bersonol wrth ddefnyddio'r ffôn. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion yn cael eu cynnal.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol.**

**Gwnaethom nodi rhai gwelliannau i'w gwneud o ran ehangu a gwella cyfleusterau'r practis, ac roedd y staff yn ymwybodol ohonynt ac yn barod i'w hystyried. Yn ogystal, gwnaethom argymell y dylid gwneud rhai gwelliannau ynghylch dadheintio. Roedd angen adolygu a gwella arferion cadw cofnodion a gweithgarwch archwilio hefyd.**

<u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis.

Gwnaethom edrych ar gofnodion cynnal a chadw cyfarpar a gedwir yn y practis a'r contract parhaus sydd ar waith i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drosglwyddo a'i waredu'n briodol. Gwelwyd bod pob cofnod o’r fath yn gyfredol ac yn ddilys, gan gynnwys ar gyfer y gwaith o gynnal a chadw'r systemau larwm tân a'r diffoddwyr tân. Ar adeg ein hymweliad, roedd y clo ar y bin lle'r oedd gwastraff clinigol yn cael ei storio wedi torri. Argymhellwyd y dylai'r clo gael ei atgyweirio neu ei newid er mwyn sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r clo ar y bin lle cedwir gwastraff peryglus a chlinigol gael ei atgyweirio/newid er mwyn sicrhau bod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu.***

Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Disgrifiwyd trefniadau addas a oedd ar waith gyda'r cyngor lleol hefyd ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw’n beryglus (domestig).

Amlygodd trafodaethau â'r staff fod y glanhawr yn cario gwastraff clinigol o'r ail lawr i'r islawr.  Oherwydd cynnwys y gwastraff, dylid ystyried sicrhau bod y glanhawr yn derbyn hyfforddiant a brechiadau priodol os bydd y sefyllfa hon yn

parhau.  Yn ogystal, roedd y grisiau tua'r islawr yn serth a dylid ystyried gosod canllawiau i hwyluso mynediad at ac i ffwrdd o'r ardal hon.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

Mae angen adolygu dyletswyddau'r glanhawr er mwyn sicrhau bod ganddo'r hyfforddiant a'r brechiadau cywir i drin gwastraff clinigol.

***Mae angen cynnal adolygiad o'r islawr i bennu a yw canllawiau'n angenrheidiol ar gyfer mynd at a gadael yr ardal hon.***

Yn gyffredinol, roedd adeilad y practis yn amlwg wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai mannau a oedd angen sylw, gan gynnwys:

- Yn ystafell driniaeth un, roedd y gadair ddeintyddol yn rhydlyd ac roedd bôn/gwaelod y gadair wedi'i niweidio
- Gwelwyd rhywfaint o niwed paent a dolenni llac ar ddroriau yn ystafell driniaeth un
- Roedd tolciau yn y byrddau gwaith yn ystafell driniaeth dau ac nid oedd y llawr wedi'i selio a allai o bosibl creu anawsterau o ran glanhau'r man yn effeithiol
- Roedd gorchudd y gadair yn ystafell driniaeth tri wedi'i niweidio
- Roedd angen atgyweirio neu newid y bibell sugno yn ystafell driniaeth tri
- Roedd angen atgyweirio'r uned olau yn ystafell driniaeth tri ac roedd angen i'r llawr gael ei selio i sicrhau y gellir glanhau'r man yn effeithiol

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis adolygu'r cyfleusterau clinigol i sicrhau eu bod yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'n rhaid rhoi sylw penodol i'r byrddau gwaith a'r dolenni yn yr ystafelloedd triniaeth,  a sicrhau bod y lloriau yn yr ystafelloedd triniaeth wedi'u selio a bod yr uned olau, y bibell sugno, gorchuddion y cadeiriau a'r rhwd/niwed iddynt yn cael eu hatgyweirio/newid*****.**

*Rheoli heintiau*

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a elwir yn ddadheintio fel arall), a gweld nad oedd y practis yn bodloni'n llwyr y mesurau a

oedd ar waith yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM).[1] Gwelsom:

- Roedd prosesau dadheintio yn cael eu cyflawni ym mhob ystafell driniaeth ac nid oedd y wybodaeth o gofnodydd data'r awtoclaf yn cael ei lawrlwytho a'i hasesu. Nid oedd yn bosibl felly i'r practis ddilysu bod y peiriant yn gweithredu'n effeithiol
- Roedd gwasgiadau deintyddol yn cael eu diheintio gan ddefnyddio chwistrelli ac argymhellwyd eu bod yn cael eu trochi mewn hydoddiant priodol cyn cael eu trosglwyddo i'r labordy deintyddol
- Roedd prosesau dadheintio yn cael eu cyflawni ym mhob ystafell driniaeth ond nid oedd gwahaniad eglur rhwng mannau glân a budr nac arwyddion i ddynodi mannau glân a budr.

O drafod ac arsylwi, tynnwyd sylw at y ffaith bod gan y practis gyfle i ddefnyddio rhywfaint o ofod sydd ohoni a fyddai'n gwella'r cyfleusterau ar gyfer dadheintio ac yn gam tuag at sicrhau arfer gorau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis wella'r trefniadau ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac ystyried datblygu lle ychwanegol i wella cyfleusterau.***

Roedd trefniadau eraill a welsom yn ymwneud â'r broses ddadheintio yn foddhaol. Roedd enghreifftiau’n cynnwys y canlynol:

- Roedd cyfarpar diogelu personol – megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid – ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc bwrpasol i olchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio’r offer mewn cyflwr da yn ôl pob golwg
- Roedd offer wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio.

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cwblhau trwy ddefnyddio dull archwilio sy'n gydnaws â chanllawiau Memorandwm Iechyd Technegol Cymru 01-05. Mae hyn yn sicrhau bod yr archwiliad yn ymdrin â'r meysydd hynny sy'n benodol i'r canllawiau a ddefnyddir yng Nghymru.

*Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion), ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Nid oedd y polisi dadebru wedi'i lofnodi a'i ddyddio, ac roedd angen ei ddiwygio i ddangos lleoliad cywir y cyffuriau brys.

Gwelwyd bod y cyffuriau brys a gedwir yn y practis yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau mynediad rhwydd atynt mewn achos brys. Argymhellwyd y dylid storio'r cyffur GlucaGen yn yr oergell. Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cyffuriau brys a oedd wedi mynd heibio i'w dyddiad yn cael eu newid yn brydlon. Hefyd, roedd y practis wedi dynodi pobl yn swyddogion cymorth cyntaf. Roedd llyfrau presgripsiwn yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo, ond yn ystod ein hymweliad canfuom lyfr presgripsiwn mewn drôr heb ei gloi. Trafodwyd hyn â'r staff yn ystod yr ymweliad ac roedd trefniadau'n mynd i gael eu rhoi ar waith i symud y llyfrau presgripsiwn a'u storio'n briodol.

*Diogelu*

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisïau diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff fynegi unrhyw bryderon. Dywedodd y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogi unrhyw aelodau newydd o'r staff clinigol yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

*Offer radiograffeg*

Roedd gan y practis gyfarpar pelydr-X a gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom nodi bod un dystysgrif yn rhestru'r rhif cyfresol anghywir ar gyfer y cyfarpar pelydr-X yn ystafell driniaeth dau. Amlygwyd hyn i'r staff ar ddiwrnod ein harolygiad fel y gellid cymryd camau i gywiro hyn.

Nid oedd llythyr hysbysu i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dweud wrthynt fod y practis yn cynnal gweithgarwch radiograffeg. Fodd bynnag, pan ddygwyd hyn i sylw'r practis, gwnaethpwyd trefniadau ar ddiwrnod yr arolygiad i hysbysu'r Awdurdod Gweithredol. Mae angen cadarnhad bod y llythyr wedi cael ei anfon at a'i gydnabod gan yr Awdurdod Gweithredol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cadarnhad bod y llythyr i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael ei anfon a'i gydnabod.***

Cwblhaodd staff yr hyfforddiant gofynnol yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[2] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ond nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystysgrif un o'r deintyddion.  Mae'n rhaid dod o hyd i'r dystysgrif a'i chadw i dystio bod hyfforddiant RhYÏ(DM) wedi'i gwblhau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid cael gafael ar yr holl dystysgrifau hyfforddiant RhYÏ(DM) a'u cadw yn y ffeil i ddangos gallu'r staff yn y maes hwn.***

Gwelsom fod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys yr holl wybodaeth a fynnir gan y rheoliadau. Ar adeg ein hymweliad, roedd ffilm pelydrau-X yn cael ei storio mewn drôr. Er mwyn sicrhau ansawdd y ffilm, gwnaethom argymell bod ffilmiau pelydr-X yn cael eu storio mewn cynwysyddion metel wedi'u selio neu i ffwrdd o amgylchedd yr ystafell driniaeth (yn arbennig ystafelloedd triniaeth un a thri).

O drafod ac arsylwi ar ystafell driniaeth un, gwelwyd y gallai un o'r ddau ddrws yn ardal yr ystafell gael eu hagor yn anfwriadol wrth gymryd pelydr-X. Gwnaethom gynghori'r practis, felly, i ystyried ffyrdd y gellid rheoli mynediad at yr ail ddrws yn well i osgoi mynediad damweiniol yn ystod adegau o'r fath.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen adolygu ystafell driniaeth un i sicrhau y rhwystrir mynediad at yr ail ddrws wrth gymryd pelydr-X.***

---

[2] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

Wrth archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion, canfuom safon dda o arferion cadw cofnodion yn gyffredinol, gyda gwybodaeth ddigonol wedi'i chofnodi i gyfiawnhau'r rhesymau dros gymryd rhai pelydrau-X deintyddol.

Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth bod ansawdd y pelydrau-X a gymerwyd wedi'i raddio yn ystafell driniaeth un, ac nid oedd tystiolaeth bod archwiliadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal. Mae angen graddio ansawdd y sganiau pelydr-X a chwblhau archwiliadau i sicrhau cysondeb o ran ansawdd y sganiau pelydr-X. Mae hyn yn bwysig am fod deintyddion yn defnyddio pelydrau-X i wneud penderfyniadau am ofal a thriniaeth cleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cynnal archwiliadau a'u defnyddio fel dulliau i sicrhau gwella parhaus.***

***Mae angen graddio'r sganiau pelydr-X yn rheolaidd a gweithredu yn sgil y graddau hyn.***

<u>Gofal effeithiol</u>

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o ddeg o gofnodion cleifion y practis. Ar y cyfan, canfuom fod y rhan fwyaf o'r cofnodion yn cynnwys gwybodaeth briodol a digon manwl ynghylch triniaeth pob claf. Fodd bynnag, gwelsom rai problemau a oedd angen sylw, gan gynnwys:

- Rhaid i'r deintydd gydlofnodi hanes meddygol fel rhan o'r drefn yn unol â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Safon 4)
- Mae angen i gofnodion cleifion dystio bod gwybodaeth am roi'r gorau i ysmygu a/neu beryglon canser y geg wedi cael ei darparu.
- Amlygodd y cofnodion a adolygwyd anghysondebau ynghylch y siart poced chwe phwynt (6PPC[3])

[3] Siart poced chwe phwynt yw'r mesuriad (mewn milimedrau) o ddyfnder rhwymyn meinwe'r deintgig ar chwe phwynt o gwmpas pob dant. Mae'r deintydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i fesur graddau unrhyw achosion o glefyd y deintgig a allai fod yn bresennol ac i asesu ymateb y deintgig i driniaeth hefyd. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.bsperio.org.uk

- Nid oedd system raddio (ansawdd) pelydrau-X ar waith ac nid oedd archwiliad ar gael (fel y nodwyd yn yr adran 'Offer radiograffeg')

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen gwella cofnodion cleifion drwy sicrhau'r canlynol:***

- ***Rhaid i drefniadau graddio pelydrau-X ac archwiliadau rheolaidd gael eu cynnal***
- ***Rhaid cadw cofnodion cynhwysfawr ynghylch y siart poced chwe phwynt***
- ***Mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i gleifion am roi'r gorau i ysmygu a'r risgiau o ganser y geg (lle bo'n berthnasol), ac yn cael ei rhoi yn y nodiadau.***
- ***Mae angen i'r holl hanesion meddygol gael eu cydlofnodi gan y deintydd.***

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis wedi ymgymryd â rhywfaint o weithgarwch archwilio, ond cynllunnir gwelliannau pellach a chofnodi parhaus o archwiliadau sydd newydd eu datblygu.

Nid oedd trefniadau ffurfiol i'r staff yn y practis gynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd yn rheolaidd, ond roedd y staff wedi bod ynghlwm wrth archwiliadau ôl-raddedig allanol.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom dystiolaeth o welliannau diweddar a systemau newydd i gefnogi gwaith rheoli ac arwain y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth. Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.**

Mae'r practis wedi cael ei reoli gan y deintydd presennol ers 2008.

Canfuom fod y practis yn ymroddedig i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel ac yn amserol. Cefnogwyd y gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau, ac roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy edrych ar ystod o gofnodion a thrwy drafodaethau ag aelodau o'r tîm deintyddol.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol i'w swyddi priodol ac i'w datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Roedd system newydd ar waith i staff gael arfarniad blynyddol o'u gwaith.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd yr holl ddeintyddion sy'n darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru ag AGIC ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis. Roedd hyn yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Gwnaethom nodi rhai polisïau a gweithdrefnau yr oedd angen eu diweddaru i adlewyrchu'r canllawiau priodol. Roedd dogfennau gan gynnwys y canllawiau rheoli gwastraff yn cyfeirio at HTM 01-05 ac roedd angen diweddaru'r rhain i adlewyrchu Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen ymgymryd ag adolygiad o'r holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y canllawiau priodol wedi'u rhestru, yn arbennig Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

Gwnaethom nodi hefyd nad oedd rhai o'r polisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu. Er cysondeb â'r polisïau a gweithdrefnau eraill a oedd yn cynnwys y dyddiadau hyn, gwnaethom argymell bod dyddiadau cyhoeddi ac adolygu'n cael eu hychwanegu at yr holl ddogfennau. Gwnaethom arsylwi a nodi'r arfer da ar waith, sef bod yn rhaid i'r staff i gyd lofnodi a dyddio'r polisïau a gweithdrefnau i dystio eu bod wedi darllen a deall eu cyfrifoldebau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn gyson â'i gilydd, gyda dyddiad y fersiwn a'r dyddiad adolygu wedi eu hychwanegu at yr holl ddogfennau polisïau a gweithdrefnau.***

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system ar waith i amddiffyn cleifion a staff.

.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd Deintyddfa Wilson Road yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i’r saith thema weithio gyda’i gilydd.  Gyda’i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n allweddol i’r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[4] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011[5]. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r adeilad
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

## Practis: Deintyddfa Wilson Road

## Dyddiad yr arolygiad:18 Tachwedd 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | ***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo bolisi a gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chŵynion yn ymwneud â thriniaeth ddeintyddol breifat.***<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 5.1* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 15 (1) (2) (3) (4) (a) (b)<br>Safon 6.3 | | | |
| | | | | | |
| 8 | ***Mae angen i'r clo ar y bin lle*** | Safon 2.1 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***cedwir gwastraff peryglus a chlinigol gael ei atgyweirio/newid er mwyn sicrhau bod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu.*** | | | | |
| 9 | ***Mae angen adolygu dyletswyddau'r glanhäwr er mwyn sicrhau bod ganddo'r hyfforddiant a'r brechiadau cywir i drin gwastraff clinigol.*** | Safon 2.1, 2.4, 2.9 a 7.1 | | | |
| 9 | ***Mae angen cynnal adolygiad o'r islawr i bennu a yw canllawiau'n angenrheidiol ar gyfer mynd at a gadael yr ardal hon.*** | Safon 2.1 | | | |
| 9 | ***Mae'n rhaid i'r practis adolygu'r cyfleusterau clinigol i sicrhau eu bod yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'n rhaid rhoi sylw penodol i'r byrddau gwaith a'r dolenni yn yr ystafelloedd triniaeth, a sicrhau bod y lloriau yn yr ystafelloedd triniaeth wedi'u selio a bod yr uned olau, y bibell*** | Safon 2.1 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***sugno, gorchuddion y cadeiriau a'r rhwd/niwed iddynt yn cael eu hatgyweirio/newid.*** | | | | |
| 10 | ***Mae'n rhaid i'r practis wella'r trefniadau ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac ystyried datblygu lle ychwanegol i wella cyfleusterau.*** | Safon 2.4<br>Canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Pennod 11 | | | |
| 11 | ***Mae angen cadarnhad bod y llythyr i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael ei anfon a'i gydnabod.*** | Safon 2.9 | | | |
| 12 | ***Mae'n rhaid cael gafael ar yr holl dystysgrifau hyfforddiant RhYÏ(DM) a'u cadw yn y ffeil i ddangos gallu'r staff yn y maes hwn.***<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 7* | Safon 7.1 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | ***Mae angen adolygu ystafell driniaeth un i sicrhau y rhwystrir mynediad at yr ail ddrws wrth gymryd pelydr-X.*** | Safon 2.1 | | | |
| 12 | ***Mae angen cynnal archwiliadau a'u defnyddio fel dulliau i sicrhau gwella parhaus.*** | Safon 3.4 | | | |
| 12 | ***Mae angen graddio'r sganiau pelydr-X yn rheolaidd a gweithredu yn sgil y graddau hyn.*** | Safon 3.3 a 3.4 | | | |
| 13 | ***Mae angen gwella cofnodion cleifion drwy sicrhau'r canlynol:***<br>• ***Rhaid i drefniadau graddio pelydrau-X ac archwiliadau rheolaidd gael eu cynnal.***<br>• ***Rhaid cadw cofnodion cynhwysfawr ynghylch y siart*** | Safon 3.5 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***poced chwe phwynt.***<br><br>• ***Mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i gleifion am roi'r gorau i ysmygu a'r risgiau o ganser y geg (lle bo'n berthnasol), ac yn cael ei rhoi yn y nodiadau.***<br><br>• ***Mae angen i'r holl hanesion meddygol gael eu cydlofnodi gan y deintydd.***<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1* | | | | |
| 14 | ***Mae angen ymgymryd ag adolygiad o'r holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y canllawiau priodol wedi'u rhestru, yn arbennig Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.*** | Safon Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd<br><br>Memorandwm Technegol | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Iechyd Cymru 01-05 | | | |
| 14 | ***Mae angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn gyson â'i gilydd, gyda dyddiad y fersiwn a'r dyddiad adolygu wedi eu hychwanegu at yr holl ddogfennau polisïau a gweithdrefnau.*** | Safon 3.4 | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):** ......................................................................................

**Teitl:** ......................................................................................

**Dyddiad:** ......................................................................................